

Wrth iddynt ddatblygu

Patrymau a Llwybrau

Beth am 'Chwarae i Ddysgu'?

- Darllenwch rannau o'r stori/chwaraewch rannau o'r stori oddi ar y CD-Rom
- Anogwch y plant i:
 - Symud o amgylch y lle gan ddefnyddio gweithrediadau sy'n 'addas i'r stori'
 - Archwilio cerdded dros y creigiau'n cario bagiau trwm, neidio dros y tonau, creu siapiau/patrymau syml yn yr awyr ac ar y llawr, hedfan fel barcud

Geiriau allweddol

- Rheolaeth, sgiliau cydsymud
- Dychmygu
- Cerdded, rhedeg, llwynog, neidio, siâp seren, adeiladu, creu
- Ymlaen, yn ôl, i'r ochr
- Yn yr awyr, yn y tywod, ar y llawr

Cyfleoedd i:

- ymuno drwy ymateb yn naturiol
- dynwared gweithrediadau, synau a geiriau'n fras
- symud mewn gwahanol ffyrdd
- symud i wahanol gyfeiriadau
- chwarae rôl ar eu pen eu hunain neu ochr yn ochr â phlant eraill neu oedolyn

Diogelwch a threfn

Sicrhewch:

- bod yr arwyneb yn lân ac yn rhydd o rwystrau
- bod y plant yn gweithio yn eu 'swigod'

Adnoddau

- Llyfr stori 'Y Parti ar y Traeth'
- Lluniau o'r llyfr
- Clipiau sain o'r llyfr
- Bwcedi, rhofiau, basged bicnic, tywelion, creaduriaid y môr, peli glan môr, barcutiaid, balŵns
- Marcwyr dros dro
- Tywod, dŵr
- Rhaffau sgipio, sgarffiau/rhubanau

Cwestiynau

- Sut byddech chi'n symud pe baech chi'n rhwbio eli haul ar groen?
- Sut gallwch chi wneud eich gweithrediadau'n fwy amlwg?
- Sut gallwch chi ddangos gweithred adeiladu castell tywod, yn yr awyr?
- Sut mae'r plant yn cydweithio â'i gilydd i lenwi'r ffos?
- Sut gallwn ni weithio gyda'n gilydd?
- Pa symudiadau gallwn ni eu defnyddio?
- Beth sy'n digwydd i'r sgarff/rhuban pan fyddwch chi'n eu dal yn eich llaw wrth greu patrwm yn yr awyr?



A allwch chi weld y plentyn?

- Yn ymuno drwy ymateb yn naturiol?
- Yn dynwared gweithrediadau, synau a geiriau'n fras?
 - Yn symud mewn gwahanol ffyrdd?
 - Yn symud i wahanol gyfeiriadau?
- Yn chwarae rôl ar ei ben ei hun neu ochr yn ochr â phlant eraill neu oedolyn?

gan amlaf

weithiau

Anogwch y plentyn i:

- ganolbwyntio ar ei hoff weithred
- trafod sut gallai symud, a symudwch gydag ef
- gwyllo plant eraill i gael syniadau. Beth mae'n ei hoffi? Sut gallai ef wneud hynny?
- dod o hyd i symbyliadau eraill sy'n ei ysbrydoli: lluniau, clipiau fideo, cerddi, rhigyau â symudiadau, a chaneuon a cherddoriaeth, ac ati
- ateb cwestiynau am y symudiadau y gallai eu defnyddio, e.e. pa greaduriaid eraill gallet ti eu gweld ar y traeth? Sut maen nhw'n symud? Dangos i fi sut gallet ti symud yr un fath â nhw
- ymarfer ei sgiliau Ymwybyddiaeth o'r Corff gan ddefnyddio'r Cardiau Sgiliau Technegol

Anogwch y plentyn i:

- ailadrodd ei weithrediadau
- trafod ansawdd ei weithrediadau, e.e. a yw 'brwydr' yn air cryf neu'n air gwan? Cryf – Sut galli di ddangos i fi dy fod di'n brwydro'n gryf â barcud?
- perfformio ei weithrediadau am fwy o amser
- dangos ei weithrediadau i blentyn arall fel y gall y plentyn hunnw eu copïo neu'u haddasu
- dechrau dangos emosiynau drwy ei weithrediadau dau: hapus, trist ac ati

Cyfleoedd campus

- Datblygiad Creadigol: Celf, crefft a dylunio – marcio a chreu patrymau â'r bysedd ac offer, dylunio a gwneud cynnyrch syml, e.e. barcud. Yn yr awyr agored – defnyddio dŵr a photeli y gellir eu gwasgu i greu llwybr i'w ddilyn wrth hedfan barcud
- Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd: Lleoedd a phobl – adnabod gwahaniaethau rhwng eu hardal nhw ac ardaloedd mewn rhannau eraill o Gymru
- Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd: Fi fy hun a phethau byw eraill – adnabod anifeiliaid a phlanhigion sy'n byw yn y môr neu wrth ymyl y môr